# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
# 14eg O RAGFYR 2015

**Yn bresennol:** **Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)**

**Y Cynghorydd:** **S.M. Allen (Is-Gadeirydd), S.M. Caiach, I.W. Davies, T.T. Defis, P. Edwards, W.T. Evans, E. Morgan a J.S. Williams**

**Y Cynghorydd W.J.W. Evans – Yn lle'r Cynghorydd H.I. Jones**
**Y Cynghorydd M.J.A. Lewis – Yn lle'r Cynghorydd D.J.R. Llewellyn**
**Y Cynghorydd D.W.H. Richards – Yn lle'r Cynghorydd E.G. Thomas**
**Y Cynghorydd B.A.L. Roberts – Yn lle'r Cynghorydd J. Williams**

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

Mr. J. Morgan – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
Mr. O. Bowen – Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Ariannol
Mrs. R. Dawson – Pennaeth y Gwasanaethau Integredig
Mr. A. Maynard – Pennaeth Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Mr. D. Eldred – Cyfrifydd y Grŵp
Ms. S. Frewin – Uwch Reolwr (Cynhwysiant Cymunedol)
Ms. S. Sauro – Swyddog Adolygu Perfformiad
Mr. L. Walters – Uwch Reolwr Cymorth Busnes (Gofal Cymdeithasol)
Mr. M. Hughes – Ymgynghorydd Cynorthwyol

Yn bresennol fel sylwedydd

Mrs. M. Evans-Thomas – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Lleoliad:** Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin (10:00yb – 12:15yp)

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr H.I. Jones, D.J.R. Llewellyn, E.G. Thomas a J. Williams, yn ogystal â'r Cynghorydd J. Tremlett (yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fudd personol.

## 3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd dim cwestiynau wedi dod i law.

## 5. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gadarnhau'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 20 Ionawr 2016.

## 6. YMGYNGHORI YNGHYLCH STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2016/2017 TAN 2018/19

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Strategaeth Cyllideb Refeniw 2016/17 hyd 2018/19 (Atodiad A) a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol i ddibenion ymgynghori yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd 2015. Dywedwyd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi setliad dros dro yn gynharach yr wythnos honno (9 Rhagfyr) ac y byddai Sir Gaerfyrddin yn gweld gostyngiad o 1% yn y gyllideb yn hytrach na'r 3.3% yr oedd y Strategaeth yn seiliedig arno. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn gwarchod cyllidebau ysgolion er nad oedd sicrwydd eto i ba raddau y byddai hynny'n digwydd. Roedd y Strategaeth yn seiliedig ar y dybiaeth na fyddai cyllidebau ysgolion yn cael eu gwarchod. I grynhoi, mae'n bosibl na fyddai angen y diffyg mewn arbedion effeithlonrwydd a bennwyd ar gyfer 2016/16; fodd bynnag, roedd cyflawni'r arbedion o £13.6m a nodwyd yn hanfodol. Byddai'r Dreth Gyngor yn codi 5% yn y Strategaeth ac roedd symudiad o 1% yn cyfateb i £760,000. Cafwyd trosolwg byr hefyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol o faes y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol.

Cafodd y materion canlynol eu trafod wrth ystyried yr adroddiad:

Gofynnwyd sut yr oedd yr Awdurdod yn rhoi sylw i ysgolion â diffyg yn eu cyllideb. Dywedodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Ariannol wrth y Pwyllgor y byddai'n rhaid i ysgol mewn amgylchiadau o'r fath gynhyrchu cynllun i ddangos sut yr oedd yn bwriadu rhoi sylw i'r diffyg. Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol fod cyllidebau ysgolion yn aml yn cael eu heffeithio gan ostyngiad yng nghymarebau disgyblion a'i bod yn hanfodol bod gan ysgolion drefniadau ariannol effeithiol a phriodol ar waith. Roedd gan yr Awdurdod bwerau i ymyrryd mewn rhai sefyllfaoedd. Mewn ymateb i gwestiwn ychwanegol ar yr ansicrwydd ynglŷn â gwarchod cyllidebau ysgolion, dywedodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Ariannol fod Llywodraeth Cymru fel arfer yn weddol bendant ynglŷn â sut yr oedd yn dymuno i gyllidebau gael eu gwarchod ac yn y blaen. Fodd bynnag, yn dilyn y cyhoeddiad diweddar, ni chafwyd canllaw pellach ar y mater. Roedd cyfarfod rhwng uwch swyddogion yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru wedi cael ei gynnal ac roedd trafodaethau pellach yn yr arfaeth er mwyn cael cytundeb ac eglurder ar y mater.

Gofynnwyd am eglurhad am y gostyngiad mewn grantiau i fudiadau gwirfoddol yn achos Gwasanaethau Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol ac Anableddau Dysgu. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol wrth y Pwyllgor fod y gostyngiad yn ganlyniad i'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn awr yn prynu darpariaeth gan y mudiadau hyn. Roedd yr Awdurdod yn awr yn symud tuag at gontractau yn y fan a'r lle, a oedd yn golygu talu am y gwasanaethau roedd wedi'u

defnyddio'n hytrach na thrwy gontractau bloc ac roedd hynny'n ffordd llawer mwy effeithlon o gaffael gwasanaethau. Mewn ymateb i awgrym y gellid ymestyn y gostyngiadau dros gyfnod o dair blynedd, dywedodd Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu y gellid ystyried hynny ond dywedodd wrth y Pwyllgor fod rhai o'r gostyngiadau wedi bod yn yr arfaeth ers peth amser; ac un enghraifft o hynny oedd Clwb Gateway Llanelli a'r Cylch a fydd yn cau cyn hir. Roedd gostyngiadau eraill fel y £65,000 i Mencap wedi cael eu hymgorffori yn y cyllid grant y cytunwyd arno'n ddiweddar. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol nad oedd y gostyngiadau mewn grantiau'n golygu y byddai'r mudiadau a effeithid yn cau a'i fod yn rhan o ymgyrch effeithlonrwydd a bod swyddogion wedi bod yn cydweithio'n agos â'r grwpiau perthnasol.

Gofynnwyd am eglurhad ar y cynnydd a wnaethpwyd i roi modelau gwasanaeth amgen ar waith ar gyfer Cartrefi Preswyl ar gyfer Pobl Hyn yr Awdurdod Lleol trwy allanoli'r gwasanaeth neu ddatblygu model Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol. Atgoffodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol y Pwyllgor fod hyn wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir ar ôl ystyried Gweledigaeth Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn 2015-2025, yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2015. Roedd cynllun busnes yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr hyn a oedd yn gynnig cymhleth a byddai'n cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor yn ddiweddarach yn 2016. Mewn ymateb i gwestiwn arall, dywedodd y Cyfarwyddwr fod amrywiaeth o fodelau y gellid eu mabwysiadu yn ogystal â sawl rhyddid y gallai'r Awdurdod eu dirprwyo i'r endid hyd braich, a fyddai'n parhau fel y prif gyfranddaliwr. Sicrhaodd y Pwyllgor y byddai adroddiad manwl yn cyflwyno ystod o opsiynau i'r aelodau i'w hystyried.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r rhesymau am y gostyngiad mewn lleoliadau mewn cartrefi preswyl yn y sector preifat, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig nad oedd y perfformiad Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal yn golygu nad oedd yr Awdurdod Lleol yn darparu gofal cymdeithasol ac mai problemau iechyd yn aml oedd yn atal trosglwyddo pobl hŷn o welyau ysbytai yn ôl i'w cartrefi neu ganolfannau preswyl eraill. Ychwanegodd fod y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Trosglwyddo Gofal (TOCALS) yn gyfle gwirioneddol i weithio â staff ysbytai i hybu a gwella perfformiad yn y maes hwn. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi hysbysu Byrddau Iechyd ei bod yn disgwyl gweld gwelliannau mewn prosesau cynllunio i ryddhau cleifion.

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynglŷn â'r cynnydd arfaethedig yng nghostau Prydau ar Glud, atgoffodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol y Pwyllgor nad oedd a wnelo'r cynnydd ddim â chau'r gwasanaeth ond ag adennill costau a sicrhau nad oedd arian i gyflenwi'r gwasanaeth hwn yn cael ei gymryd o feysydd gwasanaeth eraill. Atgoffodd y Cyfarwyddwr y Pwyllgor hefyd mai'r gwir oedd bod y galw am y gwasanaeth hwn yn newid yn sylweddol. Roedd llawer o unigolion, a arferai gael prydau yn eu cartref, yn awr yn prynu prydau wedi'u rhewi y maent yn gallu eu cynhesu ar unrhyw adeg o'u dewis. Roedd swyddogion yn awr yn gweithio â'r WRVS (Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched) a oedd wedi cael y dasg gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd i edrych sut y gellid gwella'r gwasanaeth i wneud mwy na dosbarthu prydau bwyd yn unig, gyda phwyslais arbennig ar atal unigrwydd.

Yn dilyn trafodaeth bellach ar y cynnydd arfaethedig mewn costau am Brydau ar Glud (Atodiad A) a Phrydau Cymunedol (Atodiad C), awgrymwyd y gellid edrych ar

y posibilrwydd o gynyddu'r gost dros gyfnod o dair blynedd, yn hytrach na'i gyflwyno yn 2016/17. Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig hwn.

Gofynnwyd a allai mudiadau gwirfoddol cenedlaethol mawr sy'n gweithredu yn y sir redeg gwasanaethau trwy is-gontractio trwy grwpiau lleol llai. Cydnabu Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol fod hyn yn un ffordd o ddiogelu a chefnogi grwpiau lleol llai a bod gan yr Awdurdod rôl i'w chwarae i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys mewn unrhyw ymarferiad caffael. Fodd bynnag, gwelir yn aml fod grwpiau gwirfoddol yn gweld ei gilydd fel cystadleuaeth yn hytrach na mynd ati i gydweithio i gynnig y gwasanaethau gorau i breswylwyr y sir.

**PENDERFYNWYD:**

7.1 Derbyn y Strategaeth Cyllideb Gorfforaethol am 2016/17 – 2018/19.

7.2 Cadarnhau'r Crynhoad Taliadau ar gyfer yr Adran Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

7.3 Edrych ar yr opsiwn i ymestyn y cynnydd arfaethedig mewn Prydau ar Glud a Phrydau Cymunedol dros gyfnod o dair blynedd.

## 7. ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN AR REOLI PERFFORMIAD – 1AF O EBRILL HYD AT 30AIN O FEDI 2015

Cafodd y Pwyllgor yr Adroddiadau Rheoli Perfformiad Chwe-misol i'w hystyried sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Iechyd am y cyfnod 1 Ebrill hyd 30 Medi 2014. Atgoffwyd yr aelodau gan y Cadeirydd fod yr adroddiad hwn wedi cael ei ohirio o'r cyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys:

- Trosolwg Perfformiad Penaethiaid Gwasanaeth
- Y Dull o Fesur Perfformiad – Pobl Hŷn a Phobl ag Anabledd Corfforol
- Gwasanaethau ac Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Monitro'r Cynllun Gwella – Camau Gweithredu a Mesurau Perfformiad

Cafodd y materion canlynol eu trafod wrth ystyried yr adroddiad:

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r defnydd o gyllid clystyrau Meddygon Teulu, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig, yn unol â Chynllun Gofal Sylfaenol Cymru Llywodraeth Cymru, fod pob Clwstwr (ardal) yn Sir Gaerfyrddin wedi defnyddio'r cyllid a oedd ar gael i helpu datblygiad y gwasanaeth mewn ardaloedd penodedig. Fodd bynnag, er bod perygl y gallai Meddygon Teulu edrych ar hwn fel cyfle i ariannu gwaith eu practis, roedd Gweinidog Iechyd Llywodraeth Cymru yn bendant y dylai'r arian gael ei ddefnyddio i helpu gofal sylfaenol a'r clwstwr yn ei gyfanrwydd.

Cafwyd cyfeiriad at ad-drefnu'r gwasanaeth Llinell Gofal a gofynnwyd a fyddai angen mwy o staff ar gyfer hyn. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig wrth y Pwyllgor pan ddaethpwyd â'r gwasanaeth i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, roedd swyddogion yn ymwybodol bod angen ei ailddatblygu ond roedd cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016, yn awr yn gosod gofynion ychwanegol ar y gwasanaeth, sef y byddai rhai sy'n cymryd galwadau'n gweithio i fanyleb swydd

uwch nag y maent ar hyn o bryd. Roedd yn cydnabod y gallai hyn effeithio ar niferoedd staff ac y byddai'n rhaid i'r ad-drefnu ddigwydd o fewn cyfyngiadau cyllidebol mwy llym byth. Roedd yr opsiynau a oedd yn cael eu hystyried yn cynnwys defnyddio staff â'r sgiliau perthnasol o feysydd gwasanaeth eraill.

Gofynnwyd ai rhan o rôl Broceriaid y Trydydd Sector oedd canfod gwasanaethau a oedd yn cael eu dyblygu yn y sector gwirfoddol yn ogystal â chanfod bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig wrth y Pwyllgor yn dilyn parhad rolau'r broceriaid o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol, y byddant yn awr yn cael eu hadnabod fel 'Gweithwyr Cydnerthedd Cymunedol'. Ychwanegodd y dylai'r swyddogion hyn fod yn monitro i ganfod unrhyw ddyblygiad a bod gwaith yn parhau ar lefel gorfforaethol i ganfod gwariant y sector gwirfoddol. Hysbysodd y Pwyllgor hefyd am grant Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn rhan o'r Rhaglen Cydnerthu Cymunedol a defnyddiodd hyn fel enghraifft i ddangos ei bod yn hanfodol bod unrhyw arian grant newydd yn cael ei wario ar brosiectau newydd yn hytrach na dyblygu cynlluniau a gweithgarwch presennol.

Gofynnwyd am eglurder ar y ffigurau poblogaeth sy'n gysylltiedig â chynllunio gwasanaethau ar lefel gymunedol, yn unol â Chynllun Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig wrth y Pwyllgor pan oedd gwasanaethau'n cael eu cynllunio ar lefel gymunedol ac ymhlith poblogaethau amrywiol, bod hyn yn fwyaf llwyddiannus gyda niferoedd rhwng 25,000 a 100,000.

Gofynnwyd am esboniad o rôl Eiriolwyr Ffordd o Fyw a'u hyfforddiant. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig wrth y Pwyllgor fod y rôl hon wedi cael ei threialu o fewn y Tîm Cydnerthu Cymunedol yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd y swyddogion hyn yn awr yn cael eu hadnabod fel 'Eiriolwyr Ffordd o Fyw' ac roeddent yn helpu i hybu iechyd ac i newid ymddygiad cysylltiedig ym mhob practis Meddyg Teulu ledled Sir Gaerfyrddin ac roeddent yn cael eu cynorthwyo trwy'r cynlluniau clwstwr a chyllid cysylltiedig.

Gofynnwyd a oedd Ymarferwyr Iechyd Meddwl Oedolion wedi'u cysylltu â thimau penodol ac a oedd disgwyl iddynt yn awr gymryd rhan yn y trefniadau wrth gefn 24 awr, fel y byddai disgwyl i ymarferwyr ei wneud yn y gorffennol. Dywedodd Pennaeth Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wrth y Pwyllgor fod y 18 ymarferydd yn rhan o dimau ym Mharc y Ffynnon, Caerfyrddin a Heol Goring, Llanelli. Roedd eraill yn gysylltiedig ag is-dimau a oedd wedi'u lleoli yn rhannau gogleddol y sir. Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth yn cael ei ad-drefnu ar hyn o bryd gyda golwg ar ail-alinio'r strwythurau rheoli. Ychwanegodd fod y prosiect peilot Ymarferwyr Iechyd Meddwl Oedolion 24 awr, a oedd yn defnyddio ymarferydd pwrpasol, wedi bod yn llwyddiannus iawn. Roedd trafodaethau'n parhau â staff ynglŷn â datblygu trefniadau newydd a chan fod y rhain wedi cael eu datblygu yn y lle cyntaf mewn cydweithrediad â'r staff perthnasol, roedd yn hyderus y byddai'r trefniadau newydd yn cael eu mabwysiadu.

Mewn ymateb i gwestiwn am ailstrwythuro'r Tîm Pontio, cafodd y Pwyllgor ddiweddariad gan Bennaeth Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ynglŷn ag ail-alinio Timau Cymuned Caerfyrddin a Llanelli ar gyfer Anableddau Dysgu (CLTDs) a chryfhau'r Timau Gofal Tymor Hir a Reolir gyda chyfrifoldeb am oedolion ifanc 24-25 oed ar ôl iddynt symud ymlaen o Wasanaethau Plant. Roedd y gwaith hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc hyn yn cyrraedd ac yn cyflawni eu llawn botensial. Dywedodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant Cymunedol)

wrth y Pwyllgor fod y Tîm Cyfleoedd o'r Gwasanaeth Cynhwysiant Cymunedol yn ategu'r gwaith hwn trwy ddatblygu cynlluniau ffordd o fyw a llwybrau gyrfa â'r bobl ifanc hyn er mwyn osgoi sefyllfaoedd o argyfwng yn y tymor hir.

Yn dilyn cwestiwn ar gomisiynu a chontractio Gwasanaethau Anableddau Dysgu, nododd Pennaeth Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fod llawer o waith wedi'i wneud i ddatblygu cysylltiadau gweithio agosach rhwng comisiynu a rheoli gofal i helpu defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu ac oedolion ag anghenion iechyd meddwl. Cyfeiriodd at yr enghraifft o unigolyn ag anableddau dysgu, sy'n byw mewn llety â chymorth mewn awdurdod cyfagos ac sy'n cael gwasanaethau gan ddarparwr nad yw'n gyfarwydd â Sir Gaerfyrddin. Roedd gwaith gan y Tîm Comisiynu a Rheoli Gofal wedi galluogi'r unigolyn i ddychwelyd i Sir Gaerfyrddin a bod hynny nid yn unig wedi arwain at welliant yn ei iechyd a'i les ond roedd hefyd wedi sicrhau arbedion o £40,000 y flwyddyn o ganlyniad i'w symud.

Er bod llawer o wasanaethau sector gwirfoddol ar gael i helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu, cafwyd awgrym fod rhai unigolion yn cael eu colli neu nad oeddent yn cael y cymorth cywir ar gyfer eu hanghenion a bod peth dryswch ynglŷn â'r hyn yr oedd mudiadau gwirfoddol yn ei ddarparu. Roedd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant Cymunedol) yn cydnabod y pryderon hyn a hysbysodd y Pwyllgor, yn dilyn y trafodaethau yn ei gyfarfod ym mis Medi 2015, bod swyddogion yn bwrw ymlaen â gwaith yn gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Canolfan Cynhwysiant Economaidd Coleshill a bod digwyddiad ymgynghori'n cael ei gynnal ym mis Ionawr 2016 gyda swyddogion perthnasol, darparwyr gwasanaethau a chleientiaid, er mwyn mapio a chynllunio darpariaeth y dyfodol yn ofalus. Roedd adolygiadau contract hefyd wedi galluogi swyddogion i egluro pa wasanaethau oedd yn cael eu darparu ac i sicrhau nad oedd dim ymdrechion yn cael eu dyblygu.

Croesawyd agoriad Datblygiad Gofal Ychwanegol Cartref Cynnes yng Nghaerfyrddin a chafodd y gwasanaethau eu canmol. Yn dilyn awgrym gan y Cadeirydd, cytunodd y Pwyllgor i ymweld â'r cyfleusterau newydd yn y flwyddyn newydd. Croesawodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol y cynnig a'r cyfle i aelodau weld y datblygiad newydd drostynt eu hunain.

**PENDERFYNWYD** fod yr adroddiad yn cael ei derbyn.

## 8. EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** bod y rheswm am beidio â chyflwyno adroddiad Pennu Cyllideb y Rhaglen Gyfalaf 2016/17 – 2020/21, yn cael ei nodi.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**